
diogelwch dŵr
Cymru

# Strategaeth Atal Boddi Cymru 2020-2026



# Cynnwys


Rhagair ........ 4
Cyflwyniad ........ 5
Yr angen am Strategaeth Atal Boddi yng Nghymru ........ 6
Y darlun Cymreig ........ 9
Beth sy'n digwydd nawr ........ 15
Ein Gweledigaeth - Beth ydym am wneud ........ 21
Ein Cenhadaeth - Saith nod allweddol ........ 22
Ein Huchelgais - Sut i gyflawni'r nodau hyn ........ 23
Ein Hymrwymiad - Adolygu a Gwerthuso ........ 28
Crynodeb strategol ........ 29
Atodiad 1 ........ 30
Atodiad 2 ........ 31
Atodiad 3 ........ 32
Atodiad 4 ........ 33
Cyfeirnodau ........ 34
Nodiadau ........ 35

# Rhagair



**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd,
Ynni a Materion Gwledig

Ar gyfartaledd mae tua 600 o bobl yn marw mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr bob blwyddyn yn y DU. Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys cyfartaledd o 45 o bobl sy'n colli eu bywydau yng Nghymru.

Mae ein gwasanaethau brys Cymreig yn gwbl ymroddedig ac yn hynod effeithiol, ond yn anffodus nid oes modd iddynt gyrraedd pawb. Bydd Strategaeth Atal Boddi Cymru'n rhoi amlinelliad clir o sut byddwn yn gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau partner i ymgysylltu, addysgu a chodi ymwybyddiaeth o beryglon dŵr i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Cydweithrediad ag unigolion, cymunedau, elusennau, sefydliadau, y sectorau cyhoeddus a'r sector preifat yw Diogelwch Dŵr Cymru sydd oll yn dod â sgiliau a gwybodaeth wahanol ynghyd yn gydfuddiannol. Bydd y strategaeth hon, a ddatblygwyd gan Ddiogelwch Dŵr Cymru'n rhoi arweiniad a chyfarwyddiadau ymarferol i unrhyw un a phawb sydd â'r awydd neu'r modd i helpu lleihau boddi. Byddwn yn gwbl lwyddiannus os bydd pawb yn chwarae eu rhan.

**Mae gan Gymru nifer o nodweddion dŵr mewndirol eiconig a thraethau Baner Las sy'n denu llu o ymwelwyr bob blwyddyn. Rydym yn cefnogi gweithgareddau dŵr ac yn annog pawb i fwynhau'r dŵr mewn modd diogel**

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 themâu allweddol: Cymru hydwyth, Cymru lewyrchus, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Gan weithio gyda'r Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (FfDDC) a mynd i'r afael ag elfennau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd Diogelwch Dŵr Cymru'n gweithio tuag at leihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ac yn helpu pobl i fwynhau'r dŵr mewn modd diogel.



**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

# Cyflwyniad

Bydd y strategaeth hon yn galluogi dinasyddion Cymru ac ymwelwyr i Gymru i fod yn ddiogelach o fewn dŵr, ar ddŵr ac o'i gwmpas. Mae'n hyrwyddo ac yn annog ymagwedd gyson tuag at ymgysylltu, addysgu ac ymwybyddiaeth sy'n ymwneud â diogelwch dŵr.

Bydd yn cyfrannu at Strategaeth Atal Boddi'r DU[1] ac yn lleihau damweiniau sy'n gysylltiedig â dŵr yng Nghymru.

Mae rhannu gwaith ac ymagwedd gydweithiol yn allweddol i leihau digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr.

Mae Diogelwch Dŵr Cymru yn cydnabod y gwaith atal boddi rhagorol a gyflawnwyd yng Nghymru gan wahanol sefydliadau ar hyd y blynyddoedd. Mae'r mentrau a'r ymgyrchoedd hyn wedi cyfrannu at atal boddi gan gadw unigolion a chymunedau'n ddiogelach. Wrth adeiladu ar y sail hon, bydd ein hagwedd gydweithiol i'r strategaeth hon yn parhau i ddarparu addysg ac ymwybyddiaeth diogelwch dŵr.

# Ein Gweledigaeth

**Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n ymroddedig i leihau marwolaethau o ganlyniad i foddi a chadw'n cymunedau'n ddiogelach o gwmpas dŵr.**
**Ein dyhead yw gweld dim marwolaethau'n digwydd sy'n gysylltiedig â dŵr.**

# Ein Cenhadaeth

**Er mwyn i Ddiogelwch Dŵr Cymru gyflawni ein cenhadaeth, rydym wedi datblygu'r saith nod allweddol dilynol:**

- Gwella data a deallusrwydd digwyddiadau dŵr yng Nghymru
- Hyrwyddo a datblygu dysgu nofio ac addysg diogelwch dŵr
- Hyrwyddo a chefnogi datblygiad cynlluniau diogelwch dŵr
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o risgiau sy'n ymwneud â dŵr a sicrhau bydd negeseuon cyson yn cwrdd â'r bobl iawn ar yr adeg iawn
- Hyrwyddo cyfranogaeth ddiogel mewn gweithgareddau dŵr ar draws Cymru
- Cyfrannu at ostyngiad mewn hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â dŵr
- Gweithio â theuluoedd a effeithiwyd gan ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr

# Yr angen am Strategaeth Atal Boddi yng Nghymru

**Mae'r strategaeth hon yn ffurfio fframwaith i lywio a chefnogi sefydliadau ac unigolion wrth atal boddi.**

Datblygwyd a rhyddhawyd Strategaeth Atal Boddi Cenedlaethol gyntaf y DU yn 2016 gan y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol. Yna, datblygwyd a rhyddhawyd Strategaeth Atal Boddi'r Alban yn 2017 a oedd yn adlewyrchu materion a phryderon yn yr Alban.

Yng Nghymru, datblygwyd Grŵp Diogelwch Dŵr yn 2015 gan nifer o unigolion o Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI), Y Gymdeithas Achub Bywyd Brenhinol (RLSS UK) a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Ehangwyd y grŵp i Ddiogelwch Dŵr Cymru. Ar yr adeg yr ysgrifennwyd y ddogfen hon, mae Diogelwch Dŵr Cymru'n cynnwys 22 o wahanol sefydliadau (Atodiad 1), pob un ohonynt yn gweithio tuag at leihau achosion o foddi.

Gan gydnabod bod gormod o ddamweiniau'n gysylltiedig â dŵr yn digwydd o hyd yng Nghymru, cytunwyd byddai strategaeth yn cynorthwyo gwaith y gymuned ddiogelwch dŵr, yn ogystal ag amlygu atal boddi o fewn y sawl sy'n dylanwadu ar bolisïau yng Nghymru ac ar draws cymdeithasau Cymreig.

Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n ymroddedig i leihau marwolaethau o ganlyniad i foddi yn ogystal â chadw'n cymunedau'n ddiogel o gwmpas dŵr. Ein dyhead yw gweld dim marwolaethau'n digwydd sy'n gysylltiedig â dŵr.

Mae natur unigryw Cymru yn ogystal â'r angen i sicrhau diogelwch ein cymunedau ar ddŵr ac o'i gwmpas yn gofyn am strategaeth a fframwaith penodol. Mae'r strategaeth hon yn unol â'r Strategaeth Atal Boddi Cenedlaethol, sydd â'i fwriad o haneru'r nifer o farwolaethau o ganlyniad i foddi yn y DU erbyn 2026 a lleihau'r risg o hunanladdiad yn y dŵr.

Er bod y rhan fwyaf o Gymry'n siarad Saesneg, mae nifer o gymunedau lleol ar draws y wlad yn bod lle taw'r Gymraeg yw'r iaith gyntaf. Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n cydnabod Safonau'r Gymraeg a phwysigrwydd gwybodaeth ddwyieithog. Mae Diogelwch Dŵr Cymru a'i holl sefydliadau partner yn gweithio tuag at gynnwys deunydd dwyieithog i gefnogi atal boddi.



Mae gan Gymru boblogaeth o tua 3,170,000 yn ymestyn ar draws ardal o 20,779 cilomedr sgwâr[2].

Yn 2018, cafwyd 10.02 miliwn o ymweliadau dros nos â Chymru gan breswylwyr Prydeinig[3] a bron i 1 miliwn o ymwelwyr o dramor.

Mae'r cynnydd a welwyd o ganlyniad i dwristiaeth yn fuddiol i'n heconomi ac yn dystiolaeth glir o'r dirwedd a'r arfordiroedd bendigedig sydd gennym.

Daw ymwelwyr i Gymru ym mhob tymor ac maent yn ymweld â lleoliadau mewndirol ac arfordirol ill dau i archwilio ein tirwedd a'n diwylliant rhagorol.

Mae gan Gymru dri pharc cenedlaethol, sef Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae gan bob un o'r rhain ardaloedd dŵr amrywiol a phoblogaidd.

Fodd bynnag, dim ond tri o'r nifer o ardaloedd harddwch eithriadol yw'r parciau cenedlaethol, gyda Chymru hefyd yn cael ei henwi'r wlad gyntaf yn y byd i gael llwybr arfordirol pwrpasol sy'n anwesu'r arfordir cyfan – 870 milltir / 1,400 cilomedr cyfan o amrywiaeth ogoneddus[4].

Elfen allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Cymru iachach. Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n annog pawb i fwynhau ein cefn gwlad a'n harfordir prydferth gan ymgymryd â gweithgareddau awyr agored yn ddiogel. Mae hyn yn cefnogi'r modd mae Croeso Cymru'n hyrwyddo Cymru fel lleoliad sydd â llawer o weithgareddau awyr agored.

## Arfordir



Mae'n 870 milltir o arfordir â mwy o draethau Baner Las i bob milltir nag unrhyw le arall yn y DU yn annog llawer o ymwelwyr a gweithgareddau drwy'r flwyddyn. Mae gan y moroedd o gwmpas Cymru amrediadau llanw mawr, gyda Sianel Bryste yn ail yn y byd o ran uchder, ac mae llawer o ardaloedd yn destun ceryntau cryf anrhagweladwy. Mae Cymru hefyd yn profi tywydd cyfnewidiol a all achosi tonnau mawr, llifogydd arfordirol a sefyllfaoedd peryglus ar ein glannau a'n traethau. Cydnabyddir bod llawer o asiantaethau chwilio ac achub arfordirol yn gweithio i gadw'n cymunedau arfordirol Cymreig yn ddiogel.

## Mewndir



Fel y soniwyd eisoes, mae gan Gymru nifer o afonydd ardderchog, cronfeydd dŵr eithriadol, a chamlesi hanesyddol, ynghyd â risgiau dyfroedd mewndirol eraill megis chwareli, llynoedd, pyllau ac ardaloedd sy'n debyg o orlifo. Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Ddatganoledig Cymru newid yn nyletswydd statudol y sawl sy'n gyfrifol am achubiadau mewn dyfroedd mewndirol yng Nghymru.


O ganlyniad i'r newid hwn, cymrodd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) - gyfrifoldeb am gyflwyno'r ddyletswydd statudol hon (Atodiad 2).

# Y darlun Cymreig

Ar gyfartaledd mae tua 600 o bobl yn marw mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr bob blwyddyn yn y DU.

Achoswyd y rhan fwyaf o'r marwolaethau hynny gan ddamweiniau, er bod y nifer o farwolaethau o ganlyniad i foddi damweiniol yn lleihau. Fodd bynnag, mae'r nifer o achosion o hunanladdiad yn gysylltiedig â dŵr yn cynyddu (CDdDD 2016-18[5]).

Yng Nghymru, ar gyfartaledd mae 45 o bobl yn colli'u bywydau o ganlyniad i foddi bob blwyddyn (CDdDD 2016-18).





Marwolaethau o ganlyniad i foddi yng Nghymru 2016-18


Mae Strategaeth Atal Boddi'r DU yn nodi bod nifer uchel o achosion o farwolaeth o ganlyniad i foddi damweiniol yng Nghymru nad ydynt yn gymesur â maint ei phoblogaeth. Mae'r gyfradd foddi yng Nghymru bron ddwywaith gymaint â'r DU cyfan.

Yn 2018, bu farw mwy o bobl yng Nghymru o ganlyniad i foddi damweiniol na fu farw o achos tanau, mewn damweiniau beiciau modur, wrth seiclo ac mewn digwyddiadau a oedd yn cynnwys cerddwyr neu farwolaethau o fewn y gweithle.[6]

Mae'r gyfradd hunanladdiad sy'n gysylltiedig â dŵr yng Nghymru hefyd yn uwch na'r gyfradd am weddill y DU - o bron i 20%.[7]




Cymhariaeth o achosion marwolaethau damweiniol yng Nghymru yn 2018




Cyfradd foddi ddamweiniol i bob 100,000 o bobl

Mae nifer y bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgaredd hamdden ar ddŵr neu wrth ei ymyl yn dal i dyfu. Cymrodd tua 700,000 o oedolion ran mewn campau ar y dŵr yn eu gweithgareddau glan ddŵr o fewn y DU yn 2018 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[8]

---

**Yng Nghymru, mae miliynau o bobl yn mwynhau'r amgylchedd ddŵr yn ddiogel. Fodd bynnag, mae llawer gormod o bobl yn boddi, ac fe elwir ein timau chwilio ac achub lawer yn rhy aml i ymateb i argyfyngau sy'n gysylltiedig â dŵr.**


**I dargedu ein gwaith diogelwch dŵr ac atal boddi orau, mae angen i ni ddeall yn well pwy, ble a phryd mae pobl yn boddi a'r amgylchiadau.**


---

## Demograffeg - pwy sy'n boddi?

Gall boddi ddigwydd ar bob adeg o'n bywydau. Wrth lwc, mae'r nifer o blant dan 14 oed sy'n boddi yn gymharol isel. O fewn oedolion gwrywaidd, mae boddi'n digwydd ym mhob grŵp oedran bron rhwng 15 a thros 90. Roedd nifer y benywod a foddodd yng Nghymru'n isel ac fe'u gwasgarwyd ar draws cymysgedd o amrediadau oedran heb unrhyw batrwm gweladwy.

Tuedd amlwg yw bod bron i naw allan o ddeg achos o foddi damweiniol yng Nghymru'n wrywod. Mae hwn yn debyg i'r darlun ar draws y DU yn gyfan







## Daearyddiaeth -
## lle mae pobl yn boddi?


**Mae mwyafrif marwolaethau boddi damweiniol yng Nghymru'n digwydd ar yr arfordir - 57%. Mae hyn yn wahanol i'r darlun Prydeinig, lle mai'r ffigwr yn 42%.**

Nid yw data'n adnabod patrymau daearyddol yn glir mewn achosion o foddi damweiniol; fodd bynnag, mae tueddiadau mwy amlwg yn digwydd mewn hunanladdiadau sy'n ymwneud â dŵr, gyda rhai rhannau o Gymru'n dioddef amryfal hunanladdiadau sy'n ymwneud â dŵr mewn un lleoliad neu o fewn ardal fechan.

Canran yr achosion o foddi damweiniol yng Nghymru ar yr arfordir yn erbyn mewndir:




Canran yr achosion o foddi damweiniol a ddigwyddodd ar y penwythnos:




Mae nifer y bobl sy'n boddi dros y penwythnos yn sylweddol uwch yng Nghymru na mewn rhannau eraill o'r DU ac mae cyfran y bobl sy'n marw ym misoedd haf Gorffennaf ac Awst hefyd yn uwch yng Nghymru.

# Gweithgarwch ac ymddygiad - sut mae pobl yn mynd i drafferth?

Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n cydnabod gall nifer o ffactorau gynyddu'r tebygrwydd o foddi:

- **Diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r risgiau**
- **Diffyg gallu neu hyfforddiant ar gyfer y sefyllfa**
- **Diffyg goruchwyliaeth, yn enwedig o blant**
- **Diffyg offer priodol**
- **Ffactorau cymdeithasol-economaidd**
- **Defnydd o alcohol a chyffuriau**




Doedd gan chwech o bob 10 person a oedd yn ymwneud â marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr yng Nghymru ddim bwriad o fynd i'r dŵr. Mae hwn tua 10% yn uwch na'r DU yn gyfan. Roedd y bobl yma'n ymwneud â gweithgareddau dyddiol arferol fel cerdded neu redeg gerllaw dŵr neu feicio. Roedd nifer o ganlyniad i lithriadau, bagladau neu gwympiadau.

Roedd tua thraean o farwolaethau'n cynnwys pobl a oedd yn ymwneud â gweithgaredd hamdden mewn dŵr neu ar ddŵr, megis nofio neu ymwneud â chychod. Mae hyn ychydig yn llai na'r DU ar y cyfan.

Roedd gweithgarwch masnachol yn cyfrif am tua un ym mhob 10 o farwolaethau sy'n ymwneud â dŵr, yn unol â chyfartaledd y DU, tra'r oedd 2% o farwolaethau mewn lleoliad domestig.

Cofnodwyd presenoldeb alcohol a chyffuriau/neu gyffuriau mewn un o bob tri o bobl a foddodd yng Nghymru'n 2017 a 2018. Er nad oedd alcohol a chyffuriau/neu gyffuriau'n gwbl uniongyrchol briodoladwy ym mhob achos, derbynnir yn gyffredinol ac fe'i hadroddwyd yn rheolaidd gan arbenigwyr bod alcohol yn ffactor risg mewn achosion o foddi.




- Gweithgareddau dyddiol (e.e. cerdded/rhedeg yn agos at ddŵr) - 58%
- Hamddenol (e.e. nofio/ymwneud â chychod) - 32%
- Masnachol - 8%
- Domestig (e.e bath/jacwsi/twba twym) - 2%

- Doedd dim marwolaethau o fewn y categori 'Eithriadol' (e.e. achub anifeiliaid, person ar iâ, achub, llifogydd)
- Marwolaethau fesul gweithgaredd, lle cofnodwyd gweithgaredd yr ymadawedig (CDdDD 2016-18)

# Ymatebion brys

Ar gyfartaledd, mae 1,755 o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r dŵr yn flynyddol yn gofyn am ymateb brys, sydd gyfystyr â thua 5 bob dydd.

Gellir yn hawdd fod wedi osgoi nifer o'r rhain. Mae pob ymateb brys yn dynodi gall aelod o'r cyhoedd fod mewn perygl, ac, wrth gyflawni achubiad, mae personél y gwasanaethau brys hefyd yn cael eu peryglu.

Cyfanswm nifer yr ymatebion brys i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr yng Nghymru ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19:

1,894* 2018/19

1,783* 2017/18

1,588* 2016/17

**Mae'r ffigyrau hyn hefyd yn cynrychioli mwyafrif yr ymatebion brys i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr yng Nghymru a gydlynnir gan y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig a Gwylwyr y Glannau ei Mawrhydi.**

* Atodiad 3

# Beth sy'n digwydd nawr
## - gweithgareddau atal boddi cyfredol

### Mentrau sy'n bodoli

Mae nifer o fentrau ardderchog yn cael eu darparu ar draws Cymru'n hyrwyddo diogelwch dŵr ac atal boddi. Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n diolch ac yn llongyfarch yr holl sefydliadau ac unigolion sydd wedi gweithio'n ddiflino i gyfrannu at ostyngiad ym marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr. Isod mae casgliad o beth o'r gwaith rhagorol.

## Dysgu Nofio Cymru

Fframwaith asesu a gwobrwyo dwyieithog a ddyfeisiwyd gan Nofio Cymru yw Dysgu Nofio Cymru. Llwybr diasiad graddol yw Dysgu Nofio Cymru sy'n cychwyn gyda phrofiad cyntaf baban mewn dŵr drwy fodd y gweithgaredd cwricwlwm dyfrol drwy 'Nofio Ysgol' ac ymlaen at Ddysgu Nofio Cymru i Oedolyn, sy'n fframwaith addasadwy i gyflwyno a datblygu sgiliau dyfrol i gyfranogwyr hŷn.

Mae'r cynllun arloesol hwn yn gyfrannwr allweddol wrth gyflawni 'Gweledigaeth Ddyfrol i bawb drwy'u bywydau' Nofio Cymru drwy law plant yn dysgu sgiliau cymhwysedd dŵr erbyn iddynt adael addysg gynradd. Y ffactor sylfaenol sy'n gosod nofio a sgiliau cymhwysedd dŵr ar wahân i gampau a gweithgareddau corfforol eraill yw taw sgiliau cymhwysedd dŵr yw 'cyfanswm pob symudiad dyfrol personol a all helpu atal boddi yn ogystal â'r wybodaeth, agwedd, gwerthoedd, crebwyll a'r ymddygiad diogelwch dŵr cysylltiol sy'n hwyluso diogelwch o fewn dŵr, ar ddŵr ac o'i gwmpas'. (Moran, 2013)

Mae Nofio Cymru a chyfranddalwyr cefnogol o fewn Diogelwch Dŵr Cymru wedi mabwysiadu cysyniad o 'gymhwysedd dŵr' fel newid enghreifftiol o sut y gwelir nofio ac atal boddi. Cynlluniwyd pob canlyniad asesu ar hyd Dysgu Nofio Cymru i sicrhau bydd anghenion corfforol cyfranogwyr yn cael eu diwallu a'u datblygu. Mae hwn yn dilyn egwyddorion y Llwybr Cefnogi Datblygiad Athletwr (sydd hefyd yn adnabyddus fel LTAD) gan gynnwys sgiliau Llythrennedd Corfforol a chyfleoedd datblygu sgliau croes gwricwlaidd. Datblygir sgiliau cymhwysedd dŵr ar hyd y fframwaith, gyda rhai sgiliau allweddol yn cael eu hailadrodd i sicrhau bydd gan ddysgwyr ddealltwriaeth lawn ac yr ailymwelir ac yr atgyfnerthir eu deallusrwydd. Mae cydweithrediad â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) wedi sicrhau cysondeb negeseuon a datblygwyd a rhannwyd cynllun darparu safonol cyflenwi i sicrhau cysondeb darparu ar draws pob gweithredydd Dysgu Nofio Cymru.



## Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Gaerfyrddin

Mae boddi bob tro'n drasiedi ofnadwy i unrhyw gymuned ac fe'i derbynnir yn aml fel 'un o'r pethau hynny'.

Dim ond wrth golli Cameron y gofynnwyd gennym a ellir atal y damweiniau hyn. Un llithriad oddi ar wal gerllaw'r Afon Tywi yn ei lawn lif yng Nghaerfyrddin ac ni welwyd fyth mo' Cameron eto. Hanner tymor Chwefror 2015 oedd hynny.

Sefydlwyd cronfa lle cododd gymunedau lleol a chyfagos £40,000. Dechreuodd cydlynydd y gronfa, Adam Whitehouse, ymchwilio i'r modelau arfer orau ac ymyriadau diogelwch dŵr ar draws y DU i ennill budd i Gymru wrth ostwng achosion o foddi marwol wrth sefydlu'r elusen hon.

Felly y cychwynnwyd siwrne i weithio mewn partneriaeth â theuluoedd, y trydydd sector, asiantaethau statudol a busnesau i godi proffil ein gwaith diogelwch dŵr. Mae peth o'n gwaith dros y pum mlynedd ddiwethaf yn cynnwys:

- Llofnodi Strategaeth Atal Boddi Cenedlaethol y DU 2016-26
- Darparu llithrfa newydd yng Nghaerfyrddin gyda chyllid Llywodraeth Cymru
- Darparu'r cypyrddau bwiau achub cyntaf yng Nghymru sy'n ddiogel rhag fandaliaid
- Cynllunio a darparu dros 100,000 o daflenni diogelwch dŵr ar ffurf pdf neu bapur i ysgolion
- Hyrwyddo negeseuon atal boddi dwyieithog Cymreig ar draws y DU
- Canolbwyntiodd y ganolfan elusennol newydd yng Nghaerfyrddin ar ymgysylltu diogelwch dŵr drwy law chwaraeon, treftadaeth, lleisiant cymunedol a thwristiaeth

## River and Sea Sense

Debbie Ann Turnbull yw Sefydlydd a Chyfarwyddwraig River and Sea Sense (RASS) Cyf.

Ar ôl colli ei mab Christopher yn 15 mlwydd oed yn 2006, bu Debbie'n gweithio ar draws Gogledd Cymru yn darparu rhaglen addysgu pwrpasol i ysgolion a chlybiau ieuenctid ac annerch cynadleddau'n broffesiynol ar hyd a lled y DU ac i gynulleidfaoedd rhyngwladol.

Mae Debbie wedi addysgu dros 400,000 o bobl ifanc ac athrawon hyd yn hyn.

Mae Debbie wrthi'n datblygu adnodd ar-lein i'w galluogi hi i addysgu mwy o bobl ac ail-adrodd straeon o achubiadau fel rhan o'r addysgu atal boddi.

Gobeithia Debbie gyflawni'i tharged o "gyffwrdd â miliwn o galonnau". Bydd menter newydd cymorth mewn galar yn cydredeg law yn llaw â hwn i deuluoedd a gollodd plentyn. Yn 2017 enillodd Debbie Wobr Cyflawniad Arbennig y Loteri Genedlaethol a gyflwynwyd gan Bear Grylls yn fyw ar yr awyr ar y BBC. Dywedodd Bear, "Ry'n ni'n meddwl eich bod chi'n anhygoel". O ganlyniad i hyn, mynychodd Debbie'r Senedd yn San Steffan ar bedwar achlysur a bu'n annerch Tŷ'r Arglwyddi yn amlygu 'Stori Mam'. Arweiniodd hyn ati'n derbyn Gwobr Man Golau gan y Prif Weinidog ar y pryd, Teresa May.

## Gweithgareddau atal boddi yng Nghas-gwent

Bu Gorsaf Tân ac Achub Cas-gwent a Chanolfan Hamdden Cas-gwent yn gweithio mewn partneriaeth am y saith mlynedd ddiwethaf i gynnig cyngor achub bywyd gwerthfawr i dros 750 o blant yn ystod Wythnos Atal Boddi RLSS UK bob Mehefin.

Cynhaliwyd arddangosfeydd diogelwch dŵr ag ysgolion cynradd lleol yn ystod eu gwersi nofio. Bu'r plant hefyd yn elwa o fyrddau stori'n dangos adfywio cardio-pwlmonaidd, a'r cyfle i wisgo sbectol rithwir sy'n amlygu'r peryglon gall dŵr gynnig.

Yn 2019, dechreuodd criw o Orsaf Dân ac Achub Cas-gwent raglen yn darparu sgwrs diogelwch dŵr ar y cyd rhwng GTADC a RLSS UK i ysgolion cynradd lleol. Cefnogwyd hyn wrth gynnal cystadleuaeth llunio poster atal boddi lleol o fewn ysgolion cynradd.

I gefnogi hyn ymhellach, trefnwyd sesiynau golchi ceir a nosweithiau cwis blynyddol yn rheolaidd i'r gymuned leol i godi arian i RLSS UK ac Elusen y Diffoddwyr Tân.

## Sioe Frenhinol Cymru


Ers sawl blwyddyn, lleolir Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, Llanfair ym Muallt. Mae'r boblogaeth fel arfer o gwmpas 2,500 ac yn ystod y sioe, mae hyn yn chwyddo i tua 400,000.

Mae'r Afon Wy yn llifo rhwng maes y sioe a phentref Llanelwedd gyda mynediad drwy law un bont afon sengl. Mae gan y sioe nifer o leoliadau bydd pobl yn ymweld â hwy: y prif faes, pentre'r ieuenctid, fferm Penmaenau ar un ochr i'r afon a thref Llanfair ym Muallt ar y llall. Yn ystod y sioe, collodd bobl ifanc eu bywydau yn yr afon ac ar y briffordd. Yn dilyn achos o foddi yn 2016, sefydlwyd grŵp ymgynghori diogelwch ardal Llanfair ym Muallt yn cynnwys staff tân, heddlu, awdurdod lleol, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC) a chynghorwyr lleol. Edrychodd y grŵp hwn ar y risgiau i'r cyhoedd ac adnabuwyd bod y ffordd, yr afon ac alcohol yn ffactorau o fewn y digwyddiadau. Adnabyddodd y grŵp amryw o ffyrdd i liniaru'r risgiau hyn i wneud y cyhoedd yn ddiogelach.

Yr agweddau diogelwch dŵr o hyn oedd:

- Stiwardiaid, bugeiliaid y stryd a staff sydd wedi'u hyfforddi ar sut i ddefnyddio rhaffau achub yn gweithio o fewn ac o amgylch dŵr yn ystod hwn a sioeau eraill
- Cyflwyno llwybr gwyrdd sy'n adnabod ffordd ddiogel i bob lleoliad yn ystod y sioe gan osgoi dŵr
- Arddangosfeydd diogelwch dŵr o amgylch y llyn o fewn maes y sioe yn ystod y sioe (1,000 o wylwyr i bob arddangosfa)
- Taflenni diogelwch dŵr wedi'u dosbarthu i bob stondinwr, arddangoswr ac aelodau'r cyhoedd sy'n gwersylla neu'n carafanio yn y sioe
- Stondin diogelwch dŵr gyda'r GTA, RNLI ac RLSS UK yn mynychu
- Cyngor diogelwch dŵr wedi'i gynnwys ar ap Sioe Frenhinol Cymru a gefnogir gan negeseuon rheolaidd ar Trydar a'r cyfryngau cymdeithasol
- Asedau diogelwch dŵr wedi'u lleoli yn y sioe i leihau amseroedd mynychu'r criwiau ymateb a darparu negeseuon diogelwch dŵr
- Patrolau rheolaidd o lan yr afon wedi'u cynnal gan yr heddlu a'u partneriaid
- Cyfarfodydd boreol dyddiol gyda'r holl bartneriaid i drafod materion a gosod gwrth fesurau i ostwng digwyddiadau

## Dinbych y Pysgod ac Aberdaugleddau



Mae materion diogelwch dŵr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ninbych y Pysgod ac Aberdaugleddau'n cael eu diwallu drwy law agwedd aml-asiantaeth i addysgu a hysbysu pobl ifanc.

Datblygwyd dwy fenter o'r enw 'Breakwater' yn Ninbych y Pysgod a 'Wave' yn Aberdaugleddau mewn ymateb i bryderon ynghylch pobl ifanc yn môr blymio a'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddaw yn sgil y gweithgaredd hwn.

Daethpwyd â phob disgybl Blwyddyn Saith i'r porthladdoedd i gyfranogi mewn gweithdai 30 munud a ddarparwyd gan asiantaethau diogelwch dŵr, yr awdurdod lleol a'r gwasanaethau brys. Mae'r gweithdai'n canolbwyntio ar hysbysu'r disgyblion ynghylch diogelwch dŵr a sut i asesu risg ac effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Partneriaeth Diogelwch Dŵr Caerdydd a Phenarth



Gwelodd haf poeth 2018 gynnydd nodedig ymhlith aelodau'r gymuned a oedd yn defnyddio dyfroedd lleol a gwelwyd person ifanc bron iawn â marw o ganlyniad i foddi. Roedd y cyhoedd yn defnyddio'r dŵr mewn lleoliadau a oedd ar adegau'n beryglus - gerllaw coredau, heb fod yn ymwybodol o'r peryglon cudd. Gweithredodd y bartneriaeth agwedd aml-asiantaeth a chynhaliwyd patrolau o amgylch yr ardaloedd hyn, gan hysbysu'r cyhoedd ynghylch y peryglon cudd, sioc dŵr oer a'r cyfreithiau lleol.

## Adventure Smart Wales



Cychwynnodd ymgyrch Adventure Smart Wales ddwy flynedd yn ôl gyda chefnogaeth ariannol gan Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth Llywodraeth Cymru. Daeth y prosiect hwn ag arbenigwyr o dros 30 o sefydliadau diogelwch a sefydliadau'r campau ynghyd. Fe wnaethant ddatblygu a hyrwyddo cyfres o negeseuon ac adnoddau diogelwch cadarnhaol a chyson i gynyddu parodrwydd pobl a oedd yn mentro i'r awyr agored Cymreig, ynghyd â gostwng digwyddiadau yr oedd modd eu hosgoi a oedd yn gofyn am ymateb y gwasanaethau brys. Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar dri maes; cael y cyfarpar cywir ar gyfer eich dewis o weithgaredd, bod â'r sgiliau perthnasol a gwirio amodau'r tywydd. Mae cynulleidfaoedd targed allweddol yn cynnwys teuluoedd sy'n mwynhau traethau Cymru yn ystod gwyliau ysgol; codi ymwybyddiaeth ynghylch llanwau, crychdonnau, sioc dŵr oer ac ymweld â thraeth sydd ag achubwr bywyd.

## Cymorth Cof

Mae Diogelwch Dŵr Cymru wedi cynhyrchu cymorth cof clir a chynhwysfawr i bobl sy'n gweithio ar ddŵr, ynddo ac o'i gwmpas. Mae'n rhoi cyngor clir ynghylch beth i'w wneud mewn argyfwng ynghyd â negeseuon addysgu cyson ac fe'i defnyddiwyd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Dŵr Cymru, Sefydliad Cynnyrch Mwynau (MPA) a thimau Gwylwyr y Glannau yn ogystal â nifer eraill. Ers hyn, cafodd ei hail-adrodd ar draws ardaloedd o Loegr.

## Her Y Fagloriaeth Gymraeg



Bu Diogelwch Dŵr Cymru, yn gweithio â'r Sefydliad Cynnyrch Mwynau, yn allweddol wrth gynhyrchu'r arf addysgol gyntaf ar gyfer addysgu diogelwch dŵr i gyfoedion ymhlith pobl ifanc. Yr her hon yw'r cyntaf o'i fath lle daeth gwahanol sefydliadau at ei gilydd wrth greu rhywbeth at addysg brif ffrwd gyda chefnogaeth Cyd Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC). Mae ar gael i bob ysgol uwchradd ar draws Cymru.

.

## Swim Safe




Rhaglen nofio a diogelwch dŵr yn rhad ac am ddim yw Swim Safe i blant rhwng saith a phedair ar ddeg mlwydd oed. Yn bartneriaeth rhwng Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) a Swim England, mae Nofio Cymru a phartneriaid cyflenwi lleol yn cefnogi plant yn weithredol i fwynhau sesiynau diogelwch dŵr wedi'u strwythuro ac yn llawn hwyl mewn ystod o leoliadau dŵr agored. Fe'i lansiwyd yn 2013 ac fe'i cynhaliwyd gyntaf yng Nghymru yn 2016. Bob blwyddyn mae miloedd o blant Cymru'n cymryd rhan, gan ddysgu technegau goroesi hanfodol a'r gwahaniaethau rhwng amgylchedd pwll a dŵr agored.

## Achub Bywyd o'r Môr Cymru




Elusen Achub ddyngarol gofrestredig a chorff llywodraethu'r 31 o glybiau achub bywyd gwirfoddol yng Nghymru yw Achub Bywyd o'r Môr Cymru. Achos nid er elw unigryw ydyw sydd â 3,000 o wirfoddolwyr sydd wedi ymroi i gymunedau lleol ac sy'n bodoli drwy law rhoddion, ymgyrchoedd codi arian, nawdd a grantiau. Mae Achub Bywyd o'r Môr Cymru'n helpu achub bywydau drwy addysgu, hyfforddi ac atal ac mae'n ymroddedig i leihau'r gyfradd foddi arfordirol erbyn y flwyddyn 2026, yn unol â Strategaeth Atal Boddi'r DU. Dros y 30 mlynedd ddiwethaf, maen nhw wedi cyflawni 2,000 o achubiadau yn ogystal â hyfforddi a chymhwyso 4,700 o achubwyr bywyd hyd safonau cenedlaethol o dan fframwaith Achub Bywyd Rhyngwladol.

## Awdurdod Lleol Abertawe

Mae glannau Abertawe'n rhan bwysig a gwerthfawr o economi'r ddinas ac yn lle hynod ddeniadol i ymweld ag ef, i aros ac i fyw ynddo, i dwristiaid a myfyrwyr yn ddiwahân. Mae Cyngor Abertawe'n adnabod y risgiau cynhenid sy'n gysylltiedig â'i agosatrwydd at y dŵr ac yn dilyn mewnwelediad ac adolygiad o achosion o foddi a methiannau boddi agos, mae'n ymdrechu i atal digwyddiadau pellach ac i wneud defnyddwyr deimlo'n fwy diogel. I gyflawni hyn, mae gan Gyngor Abertawe dîm diogelwch dŵr ac atal boddi pwrpasol - un o'r unig awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud hynny.

Cafodd ymgyrch 'Paid Yfed a Boddi #Byddynffrind' RLSS UK ei gefnogi gan Gyngor Abertawe am nifer o flynyddoedd.

Bu'r tîm Diogelwch Dŵr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau'r Glasfyfyrwyr o fewn y prifysgolion i ymbil ar fyfyrwyr i gofio am y peryglon a osodwyd gan ormod o alcohol pe bai eu siwrne gartref ar ôl noson allan yn pasio heibio i ddŵr agored.

Mae ymgyrchoedd eraill o fewn canol y ddinas yn parhau i atgoffa pobl o beryglon dŵr, gan sicrhau eu bod yn cadw llygad barcud ar ffrindiau a gwneud yn siwr eu bod yn dychwelyd adref yn ddiogel.



## Ymgyrch 'Un Anadl Olaf' Dŵr Cymru

Yn draddodiadol, yn aml defnyddiwyd dulliau fel arwyddion mewn lleoliadau a fideos gwybodaeth ffeithiol i rybuddio pobl o beryglon nofio mewn cronfeydd dŵr.

Ond dangosodd adborth gan sesiynau grwpiau ffocws mewn ysgolion cyfun lleol â chynulleidfa darged Dŵr Cymru, sef pobl yn eu harddegau ac oedolion ifanc, bod angen i ni gyflwyno'r peryglon mewn modd mwy ymgysylltiol a chignoeth mewn ymgyrch nad sy'n teimlo'n awdurdodus i'n cynulleidfa. Felly, fe wnaethom ddatblygu ein hymgyrch Un Anadl Olaf - mwy cignoeth a chyfoes ei hymddangosiad, gyda'r cyfeiriad lleiaf at Ddŵr Cymru.

Defnyddiodd yr ymgyrch fideo gignoeth 360° a 2D, wedi'i hanelu at ein cynulleidfa darged drwy negeseuon cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion. Pwysleisiwyd hwn drwy law hysbysebion radio a phartneriaethau ag ysgolion i ddosbarthu cynnwys i bobl ifanc drwy law gweithdai a dangosiadau ffilm.

Denodd yr ymgyrch sylw eang gan y wasg a'r cyfryngau darlledu a gwelodd Tîm Diogelwch Dŵr Cymru, sy'n cofnodi pob achos o nofio/ymgesion i nofio yn ein cronfeydd dŵr, cwymp yn nifer y digwyddiadau ers lansiwyd ein hymgyrch 'Un Anadl Olaf'ac ni fu'r un farwolaeth ddamweiniol ddilynol yng nghronfeydd Dŵr Cymru ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

diogelwch dŵr
Cymru

# Ein Gweledigaeth

## - beth ydym am wneud

"Mae Diogelwch Dŵr Cymru wedi ymroi i leihau marwolaethau o ganlyniad i foddi yn ogystal â chadw'n cymunedau'n ddiogel o gwmpas dŵr.

Ein dyhead yw gweld dim marwolaethau'n digwydd sy'n gysylltiedig â dŵr."

Mae natur unigryw Cymru ynghyd â'r angen i sicrhau diogelwch ein cymunedau ar y dŵr ac o'i amgylch yn gofyn am strategaeth a fframwaith penodol. Mae'r strategaeth hon yn alinio â'r Strategaeth Atal Boddi Cenedlaethol sydd â'r nod o haneru marwolaethau o ganlyniad i foddi damweiniol yn y DU erbyn 2026 a gostwng y risg i bobl sy'n cymryd eu bywydau eu hunain yn y dŵr.

# Ein Cenhadaeth
## – Saith nod allweddol

**Er mwyn i Ddiogelwch Dŵr Cymru gyflawni ein cenhadaeth, rydym wedi datblygu'r saith nod allweddol canlynol:**

- Gwella data a gwybodaeth digwyddiadau dŵr yng Nghymru
- Hyrwyddo a datblygu dysgu nofio ac addysg diogelwch dŵr
- Hyrwyddo a chefnogi datblygiad cynlluniau diogelwch dŵr
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o risgiau sy'n ymwneud â dŵr a sicrhau bod negeseuon cyson yn cyrraedd y bobl gywir ar yr adeg gywir
- Hyrwyddo cyfranogaeth ddiogel mewn gweithgareddau dŵr ar draws Cymru
- Cyfrannu at ostyngiad mewn hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â dŵr
- Gweithio â theuluoedd a effeithiwyd gan ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr

# Ein Huchelgais - Sut i gyflawni'r saith nod allweddol hyn

Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n bartneriaeth a wnaed o sefydliadau ac unigolion sy'n rhannu nod cyffredin o geisio cyrraedd dim marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ynghyd â lleihau'r nifer o ddamweiniau sy'n gysylltiedig â dŵr.

Drwy rinwedd ei strwythur, bydd yn ceisio cefnogi addysg atal boddi ac ymgysylltu.

Bydd y strategaeth hon yn ffurfio ffocws Diogelwch Dŵr Cymru i'r dyfodol.




# TARGED :
## Gwella data a deallusrwydd digwyddiadau dŵr yng Nghymru

Yn gyfredol, mae'r gronfa ddata digwyddiadau dŵr (CDdDD) yn crynhoi data gan wahanol sefydliadau sy'n ymwneud â marwolaethau. Mae deall yr amgylchiadau sy'n arwain at foddi yn gymorth i ni atal achosion eraill. Mae angen i ni adeiladu darlun o beth mae pobl yn gwneud a sut maen nhw'n ymddwyn pan maen nhw'n boddi fel y cawn ganfod yr ymyriadau mwyaf effeithiol a chyrraedd y bobl sydd fwyaf agored i niwed.

**Hyrwyddo adroddiadau data CDdDD y DU a Chymru â sefydliadau partner ac awdurdodau lleol**
- Cynhyrchu datganiad i'r wasg yn flynyddol
- Creu adroddiad a chrynodeb tuedd blynyddol
- Rhannu data CDdDD Cymreig

**Cefnogi rhannu data achubiadau dŵr mewndirol y Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) â CDdDD**
- Gweithio â CDdDD a'r Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) wrth rannu data'r GTA ar draws y DU
- Pob GTA yng Nghymru i rannu data achub o ddŵr

**Archwilio cyfleoedd i adnabod ardaloedd o risg uchel a rhannu gwybodaeth leol o ddigwyddiadau i sicrhau y dysgir gwersi**
- Rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd mewn modd cyfrinachol lle bo'n briodol
- Cwmpasu'r cyfuniad o gasglu data arfordirol a mewndirol yng Nghymru i gynnwys gwybodaeth am fethiannau agos

# TARGED:
# Hyrwyddo a datblygu dysgu nofio ac addysg diogelwch dŵr

Nid pawb yng Nghymru sy'n gwybod sut i nofio neu sut i gadw'u hunain yn ddiogel mewn dŵr ac o'i gwmpas. Rydym yn dymuno hyrwyddo pwysigrwydd ennill y sgiliau bywyd allweddol hyn drwy law rhaglenni blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd ac uwchradd ac ar draws ein cymunedau amrywiol. Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n cefnogi Gweledigaeth Nofio Cymru 'Campau Dŵr i bawb am fywyd' (Atodiad 4)

**Sefydlu is-grŵp addysg**

- Dod â sefydliadau allweddol ynghyd i hyrwyddo agwedd gyson at ddatblygu sgiliau cymhwysedd dŵr ac addysg diogelwch dŵr
- Atgyfnerthu methodoleg arfer orau cydweithredol ar gyfer negeseuon ac addysgu

**Pob plentyn i gyfranogi mewn gweithgareddau addysgu diogelwch dŵr**

- Gweithio â Nofio Cymru a'u partneriaid i amlygu pwysigrwydd dysgu nofio a datblygu sgiliau cymhwysedd dŵr, nid ar gyfer y buddion iechyd a lles cysylltiol yn unig ond yn benodol ar gyfer y posibilrwydd o atal achosion o foddi ac achub bywydau
- Hyrwyddo ac annog dysgu nofio a datblygu sgiliau cymhwysedd dŵr ar draws pob oedran
- Parhau i bledio achos yr angen i gynnwys addysgu diogelwch dŵr mewn gwersi nofio i bob oed

**Cyd-lynu'n gydweithredol hyrwyddiad cyfleoedd cymunedau amrywiol yng Nghymru i gael y cyfle i ddysgu nofio a derbyn addysg diogelwch dŵr.**

- Cyd-lynu'n gydweithredol a hyrwyddo pwysigrwydd dysgu nofio a datblygu sgiliau cymhwysedd dŵr
- Hyrwyddo grwpiau nofio ac arbed bywyd lleol

# TARGED:
# Hyrwyddo a chefnogi datblygu cynlluniau diogelwch dŵr

Cefnogi datblygiad Fforymau Diogelwch Dŵr a phartneriaethau ar draws Cymru i ddeall risgiau o fewn cymunedau lleol yn well a datblygu cynlluniau i liniaru.

**Cefnogi Awdurdodau Unedol (AU) yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Diogelwch Dŵr**

- Cynorthwyo AU wrth adnabod ardaloedd risg uchel
- Rhannu dogfennau canllaw arfer da ac ymchwil ar ddiogelwch dŵr
- Annog cynhwysiant diogelwch dŵr fel eitem agenda sefydlog mewn cyfarfodydd perthnasol

**Cefnogi datblygiad fforymau diogelwch dŵr a grwpiau cymunedol lleol**

- Cynorthwyo wrth adnabod ardaloedd risg uchel
- Rhannu dogfennau canllaw arfer da ac ymchwil ar ddiogelwch dŵr
- Rhannu arfer orau ar draws Cymru

## TARGED:
## Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o risgiau sy'n ymwneud â dŵr a sicrhau bydd negeseuon cyson yn cwrdd â'r bobl iawn ar yr adeg iawn

Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n cydnabod y gwaith gwerthfawr a wnaed eisoes i godi ymwybyddiaeth ynghylch risgiau sy'n ymwneud â dŵr ac atal boddi. Byddwn yn parhau i gefnogi'r ymdrechion hyn ac yn chwilio i gynyddu cydweithredu a chysondeb.

**Sefydlu is-grŵp cyfryngau a chyfathrebiadau**

- Casglu ynghyd arbenigwyr cyfathrebu o'n sefydliadau aelodaeth i sicrhau negeseuon cyfathrebu cyson dwyieithog ar draws Cymru
- Creu pecyn cymorth cyfathrebu dwyieithog i'w ddefnyddio gan sefydliadau ledled Cymru
- Defnyddio tystiolaeth, data ac arbenigedd deunydd pwnc i sicrhau y targedir ymgyrchoedd a negeseuon at risg a adnabuwyd

**Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd Diogelwch Dŵr ar draws Cymru**

- Creu a rhannu calendr blynyddol i annog sefydliadau i gefnogi ymgyrchoedd
- Cefnogi sefydliadau i ddarparu ymgyrchoedd

## TARGED:
## Hyrwyddo cyfranogaeth ddiogel mewn gweithgareddau dŵr ar draws Cymru

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 nod o Gymru iachach. Mae ymgymryd â gweithgareddau dŵr yn ffordd wych o gynnal ffordd o fyw iach a chytbwys.
Mae Cymru'n gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr gydag enw da byd eang am weithgareddau awyr agored ac antur, gyda'n dyfroedd arfordirol a mewndirol yn atyniad allweddol.

**Annog gweithgareddau dŵr diogel yng Nghymru fel modd o gynnal ffordd o fyw iach a mwynhau ein hamgylchedd**

- Hyrwyddo pwysigrwydd offer cywir wrth ymgymryd â gweithgareddau dŵr
- Hyrwyddo'r hyfforddiant cywir i ymgymryd â gweithgareddau dŵr
- Gweithio â chyrff llywodraethol a Chroeso Cymru i gefnogi ac annog cyfranogaeth ddiogel o weithgareddau dŵr

## TARGED:
## Cyfrannu at ostyngiad mewn hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â dŵr

Mae hunanladdiad sy'n gysylltiedig â dŵr yn cynyddu yng Nghymru. Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n cydnabod yr angen i ddeall ffactorau dylanwadol yn well a byddant yn gweithio i geisio atal yn unol â Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan Niweidio Llywodraeth Cymru, 'Beth am siarad â Mi'.

**Sefydlu is-grŵp atal hunanladdiad**
- Sefydlu cysylltiadau â sefydliadau sy'n gweithio tuag at leihau achosion o hunanladdiad a digwyddiadau dŵr sy'n ymwneud ag iechyd meddwl
- Crynhoi arbenigwyr i ddeall y darlun hunanladdiad sy'n berthnasol i ddŵr yng Nghymru'n well

**Cefnogi'r ddealltwriaeth fod modd atal hunanladdiad**
- Gweithio gyda sefydliadau atal hunanladdiadau perthnasol i ddeall camdybiaethau cyffredin
- Rhannu a hyrwyddo ymgyrchoedd a gweithgareddau perthnasol i helpu gostwng achosion o hunanladdiad o gwmpas dŵr
- Annog gohebu cyfrifol ymysg y Cyfryngau o achosion o hunanladdiad sy'n berthnasol i ddŵr

## TARGED:
## Gweithio â theuluoedd a effeithiwyd gan ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr

Mewn gwirionedd, dim ond y rhai hynny a brofodd yr effaith o golli aelod o'r teulu all ei ddeall yn iawn. Mae amryw o deuluoedd sy'n galaru ar flaen y gad wrth atal boddi.

**Adnabod effaith ddynol boddi**
- Gweithio â theuluoedd a all ddymuno bod ynghlwm ag atal boddi
- Archwilio cyfleoedd i sefydlu is-grŵp teuluoedd/eiriolaeth

diogelwch dŵr Cymru

# Ein Hymrwymiad – Adolygiad a Gwerthusiad

Lansiad y strategaeth hon yw dogfen hir ddisgwyliedig sy'n cefnogi sefydliadau ar hyd Cymru i wneud gwahaniaeth tuag at atal boddi.

Drwy law adborth cyfarfodydd Diogelwch Dŵr Cymru, bydd adborth o'n gwaith cyfredol ac arfaethedig yn cael ei gipio fel mecanwaith gweithredol o'r gwerthuso yn erbyn y strategaeth.

I gefnogi'r strategaeth hon ymhellach, bydd Diogelwch Dŵr Cymru'n chwilio i ddechrau adolygiad ganol-strategaeth ffurfiol yn 2023.

Bydd yr adolygiad a'r gwerthusiad yn asesu'r saith nod allweddol i ganfod os ydynt yn gywir o hyd neu angen eu diwygio. Byddwn hefyd yn adolygu ein cynnydd yn erbyn y saith nod allweddol ac yn cyhoeddi adroddiad ar ddiwedd 2023.

# Crynodeb strategol

| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth** | Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n ymroi i leihau marwolaethau o ganlyniad i foddi, gan gadw ein cymunedau'n ddiogel o gwmpas dŵr. Mae gennym ddyhead o ddim marwolaethau sy'n ymwneud â dŵr.<br><br>Mae natur unigryw Cymru yn ogystal â'r angen i sicrhau diogelwch ein cymunedau ar ddŵr ac o'i gwmpas yn gofyn am strategaeth a fframwaith penodol. Mae'r strategaeth hon yn alinio â'r Strategaeth Atal Boddi Cenedlaethol, sy'n anelu at haneru'r nifer o farwolaethau o ganlyniad i foddi yn y DU erbyn 2026 a lleihau'r risg o bobl yn cymryd eu bywydau yn y dŵr. |
| **Pam oes angen Strategaeth arnom?** | · Ar gyfartaledd, mae 45 o bobl yn boddi yng Nghymru bob blwyddyn<br>· I ddiogelu ein dinasyddion a'n hymwelwyr cystal â phosib o amgylch dŵr<br>· Mae Cymru'n wahanol i weddill y DU gyda'r Llywodraeth ddatganoledig, addysg a'r ymateb achub o ddŵr |
| **Sut ydym yn mynd i gyflawni ein saith nod allweddol?** | · **Gwella data a deallusrwydd digwyddiadau dŵr yng Nghymru**<br>Yn gyfredol, mae'r gronfa ddata digwyddiadau dŵr (CDdDD) yn crynhoi data sy'n berthnasol i farwolaethau gan wahanol sefydliadau. Mae deall yr amgylchiadau sy'n arwain at achosion o foddi'n help i ni atal achosion eraill. Mae angen i ni greu darlun o'r hyn mae pobl yn gwneud a sut maen nhw'n ymddwyn pan maen nhw'n boddi fel y cawn ganfod yr ymyriadau mwyaf effeithiol a chyrraedd y bobl sy'n fwyaf agored i niwed.<br>· **Hyrwyddo a datblygu dysgu nofio ac addysg diogelwch dŵr**<br>Nid pawb yng Nghymru sy'n gwybod sut i nofio neu sut i ddiogelu'u hunain yn y dŵr neu o gwmpas iddo. Rydym yn dymuno hyrwyddo'r pwysigrwydd o ennill y sgiliau bywyd allweddol hyn drwy law rhaglenni bywyd cynnar ac ysgolion cynradd ac uwchradd ac ar draws ein cymunedau amrywiol.<br>· **Hyrwyddo a chefnogi datblygu cynlluniau diogelwch dŵr**<br>Cefnogi datblygiad Fforymau Diogelwch Dŵr a phartneriaethau ar draws Cymru i ddeall risgiau dŵr o fewn cymunedau lleol yn well a datblygu cynlluniau i liniaru.<br>· **Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o risgiau sy'n ymwneud â dŵr a sicrhau bydd negeseuon cyson yn cwrdd â'r bobl iawn ar yr adeg iawn**<br>Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n cydnabod y gwaith gwerthfawr a wnaed eisoes i godi ymwybyddiaeth ynghylch risgiau sy'n ymwneud â dŵr ac atal boddi. Byddwn yn parhau i gefnogi'r ymdrechion hyn ac yn chwilio i gynyddu cydweithredu a chysondeb.<br>· **Hyrwyddo cyfranogaeth ddiogel mewn gweithgareddau dŵr ar draws Cymru**<br>Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 nod o weld Cymru iachach. Mae ymgymryd â gweithgareddau dŵr yn ffordd wych o gynnal ffordd o fyw iach a chytbwys.<br>Mae Cymru'n gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr ac mae ganddi enw da'n fyd eang ar gyfer gweithgareddau awyr agored ac antura. Mae ein dyfroedd arfordirol a mewndirol yn atyniad allweddol.<br>Bydd Diogelwch Dŵr Cymru'n annog gweithgareddau dŵr yng Nghymru fel modd o gynnal ffordd o fyw iach a mwynhau ein hamgylchedd.<br>· **Cyfrannu at leihau achosion o hunanladdiad sy'n ymwneud â dŵr**<br>Mae hunanladdiad sy'n ymwneud â dŵr yn cynyddu yng Nghymru. Mae Diogelwch Dŵr Cymru'n cydnabod yr angen i ddeall ffactorau dylanwadol yn well ac i weithio ar atal.<br>· **Gweithio â theuluoedd a effeithiwyd gan ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr**<br>Mewn gwirionedd, dim ond y rhai hynny a brofodd yr effaith o golli aelod o'r teulu all ei ddeall yn iawn. Mae amryw o deuluoedd sy'n galaru ar flaen y gad wrth atal boddi. |

# Atodiad 1

**Sefydliadau sydd ynghlwm â Diogelwch Dŵr Cymru ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon:**

Adventure Smart Wales

Canal & River Trust

Dŵr Cymru – Welsh Water

Heddlu Dyfed Powys

Heddlu Gwent

Cadwch Gymru'n Daclus

Yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau (Maritime and Coastguard Agency)

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Sefydliad Cynnyrch Mwynau

Y Gweithgor Ymgynghorol Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru ar Atal Hunanladdiadau a Hunan-Niweidio

Cyfoeth Naturiol Cymru

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

Y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Sefydliad Achub Bywyd Brenhinol y DU

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI)

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau

Y Samariaid

Cwmni Dŵr Severn Trent Water

Heddlu De Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Cyngor Sir Abertawe

Nofio Cymru

Cymdeithas Achub Bywyd o'r Môr Cymru

Water Safety Scotland

# Atodiad 2

**Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru**

Y Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygiad) 2017
Gwnaed ar y 15fed o Chwefror 2017
Rhoddwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr 20fed o Chwefror 2017
Daeth i rym ar y 1af o Ebrill 2017

Mae Gweinidogion Cymreig, wrth arfer y grymoedd a roddwyd gan adrannau 9 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Achub 2004(1) yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac a freiniwyd arnynt (2), ac wedi ymgynghori â'r fath bersonau yr ystyriwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 9(5) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn dilynol:

Teitl, cychwyniad a chymhwysiant

1.—(1) Title y Gorchymyn hwn yw'r Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygiad) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y 1af o Ebrill 2017.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

Diwygiad y Gorchymyn

2. - (1) Diwygiwyd Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007(3) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 3, mewnbynnwch—

"Achub ac amddiffyniad mewn achos o lifogydd ac argyfyngau dŵr mewndirol"

3A.—(1) Rhaid i awdurdod tan ac achub ddarparu yn ei faes, i'r graddau yr ystyria'n rhesymol iddo wneud felly, at ddibenion

(a) achub pobl, neu eu hamddiffyn hwy rhag niwed difrifol mewn achos o argyfwng sy'n cynnwys llifogydd; ac

(b) achub pobl mewn achos bydd argyfwng yn cynnwys dŵr mewndirol.

(2) Mae'r ddyletswydd o fewn paragraff (1) yn gymwys i argyfwng yn disgyn o fewn adran 58(a) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

(3) Yn yr erthygl hon - mae "llifogydd" ("flooding") yn golygu unrhyw achos lle bydd tir nad sydd yn arferol wedi'i gwmpasu gan ddŵr yn cael ei gwmpasu gan ddŵr; Mae "dŵr mewndirol" ("inland water") yn golygu —

(a) afonydd, nentydd a chamlesi; a

(b) llynoedd, cronfeydd a chwareli sy'n llawn dŵr."

(3) O fewn erthygl 4—

(a) yn y geiriau rhagarweiniol, ar gyfer "neu 3" amnewidiwch "3 neu 3A";

(b) ym mharagraff (a), ar ôl "gwasanaethau", mewnbynnwch "offer".

# Atodiad 3

**Mae'r data a gipiwyd ar gyfer yr adran ymateb Brys Cymreig gan ffynonellau'r Gwasanaeth Tân ac Achub a Gwylwyr y Glannau EM.**

**Cymerwyd y data Tân ac Achub Cymru o ddogfen ystadegau Cyhoeddus y Llywodraeth:**
https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/

**Darparwyd data Gwylwyr y Glannau EM gan Wylwyr y Glannau EM Aberdaugleddau ac mae'n ystyried y mathau dilynol o ddigwyddiadau:-**
**Mae Person yn Ymddangos fel petai mewn Trafferth, person yn y dŵr, person wedi'i ynysu neu'n sownd, cwch ddŵr personol person - e.e. gwely awyr/matres wynt, Fagl, Person yn sownd mewn Mwd, Hapddigwyddiadau Sifil, Llifogydd, Plymwyr, Cychod - cwch personol, Dyn yn y Môr a digwyddiadau eraill sy'n cychwyn â Llong sy'n cynnwys ymateb brys a risg i fywyd.**

| **Asiantaeth** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** |
|---|---|---|---|
| GTA Cymreig | 669 | 703 | 669 |
| Gwylwyr y Glannau EM | 919 | 1080 | 1225 |
| Cyfansymiau | 1588 | 1783 | 1894 |

Cyfartaledd o 1755 bob blwyddyn, 4.8 pob dydd

# Atodiad 4

Gweledigaeth Nofio Cymru yw 'Campau Dŵr i bawb am fywyd'. Cynhwyswyd nofio a diogelwch dŵr yn ddiamwys o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 ac mae cynnwys 'profiad mewn dŵr ac o'i gwmpas' ar hyd y Cwricwlwm i Gymru 2022 a all cael ei gynnwys a'i dystiolaethu ar draws pob maes o ddysgu a phrofiad yn rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau cymhwysedd dŵr a diogelwch dŵr drwy gydol addysg plentyn.

Y ffactor sylfaenol sy'n gosod nofio a sgiliau cymhwysedd dŵr ar wahan i gampau a gweithgareddau corfforol eraill yw taw sgiliau cymhwysedd dŵr yw 'cyfanswm pob symudiad dyfrol personol' a all helpu atal boddi yn ogystal â'r wybodaeth, agwedd, gwerthoedd, crebwyll a'r ymddygiad diogelwch dŵr cysylltiol sy'n hwyluso diogelwch o fewn dŵr, ar ddŵr ac o'i gwmpas'. (Moran, 2013) Mae Nofio Cymru a chyfranddalwyr cefnogol wedi mabwysiadu cysyniad o 'gymhwysedd dŵr' fel newid enghreifftiol o sut y gwelir nofio ac atal boddi.

Mae nofio'n gydran allweddol o siwrne llythrennedd corfforol person ac mae data diweddar yn awgrymu fod 52% o blant Cyfnod Allweddol 2 (oed 7-11)[9] sy'n mynychu Nofio Ysgolion yn 2017/18 yng Nghymru'n methu nofio 25 metr heb gymorth yn ôl asesiad y Cwricwlwm Asesu Cenedlaethol (Casgliad Data Nofio, 2018)

Gyda'r newidiadau i gyllid y Fenter Nofio am Ddim i ddarparwyr hamdden, mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymhwysedd dŵr a chael profiad o fewn ac o gwmpas dŵr yn greiddiol. Hefyd, mae tystiolaeth nad ydy teuluoedd incwm isel yn meddu ar ddigon o incwm defnyddadwy i ariannu sgiliau a all achub bywydau. Mae ysgolion yn darparu'r prif gyfleoedd i blant ddod yn heini, fel arfer drwy law sesiynau 'Ymarfer Corff' wedi'u hamserlennu, sy'n cynnwys nofio. (StreetGames, 2019)[10]. Gyda'r newidiadau ar droed gyda Chwricwlwm i Gymru 2022, bydd gan ysgolion ddisgresiwn wrth gynllunio'u cwricwlwm ond dylent ddilyn y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd yn weithredol. Nofio Cymru a Grŵp Diogelwch Dŵr Cymru Gyfan yw'r lleisiau arbenigol mewn perthynas â chymhwysedd dŵr ac mae modd iddynt ddarparu adnodau, hyfforddiant a chefnogaeth ehangach i alluogi asesu cyson ar draws Cymru.

Mae patrymau cymdeithasol yn amlwg ymhlith cyfranogaeth nofio, gyda phlant o ddosbarth gymdeithasol-economaidd is yn llai tebyg na'r rhai o ddosbarth cymdeithasol-economaidd uwch i ymgymryd â nofio[11]. Ystyriaeth berthnasol ddylai fod yw'r gost ariannol o wersi nofio, yn enwedig yn perthyn i deuluoedd incwm isel a all beidio â meddu ar ddigon o incwm defnyddadwy i ariannu'r addysgu a'r datblygiad o'r sgiliau sydd â'r potensial i achub bywyd er gwaethaf y pwysigrwyd a'r ddealltwriaeth fydd ganddynt yn y maes hwn.

Cefnogir hyn gan ddata diweddar sy'n dangos ar draws rhwydwaith Nofio Cymru cost gyfartalog gwers nofio yw £6.06, gyda theuluoedd incwm isel yn gwario dim ond £3.21 yr wythnos ar 'gampau heini'. Dengys hyn fod dosbarth cymdeithasol-economaidd yn ystyriaeth ddifrifol mewn perthynas â derbyn mynediad at wersi traws-gwricwlaidd.

Dymuna Nofio Cymru a'n partneriaid cydweithredol amlygu pwysigrwydd dysgu nofio a datblygu sgiliau cymhwysedd dŵr, nid dim ond ar gyfer y buddion iechyd a lles cysylltiol ond yn benodol ar gyfer y potensial i atal achosion o foddi ac achub bywydau.

# Cyfeirnodau


(1) https://www.nationalwatersafety.org.uk/media/1005/uk-drowning-prevention-strategy.pdf

(2) https://www.ukpopulation.org/wales-population/

(3) https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/researchmain/latest-stats/?lang=en

(4) https://www.walescoastpath.gov.uk/?lang=en

(5) https://www.nationalwatersafety.org.uk/waid/

(6) https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/road-accidents-and-casualties-2018-where-when-and-who-807.pdf

(7) https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/fire-and-rescue-incident-statistics-april-2018-to-march-2019-734.pdf

(8) https://www.rya.org.uk/SiteCollectionDocuments/sportsdevelopment/2018-watersports-study-exec-summary-final.pdf.

(9) In 2017/18, 63,946 Key Stage 2 pupils in Wales were assessed against the National Curriculum Assessment; of these 30,556 met the assessment criteria (Free Swimming Data Collection (2018) Source: Free Swimming Data Collection (2018) Learn to Swim – School Swimming Data 2017/18. Data File. Collated by Data Cymru

(10) StreetGames (2019). "Families Insight Study" [Powerpoint Presentation] Accessed: 14th June 2019

(11) Audrey, S., B. W. Wheeler, J. Mills and Y. Ben-Shlomo (2012). "Health promotion and the social gradient: the free swimming initiative for children and young people in Bristol." Public Health 126(11): 976-981.

# Nodiadau

# Nodiadau

diogelwch dŵr
Cymru

Strategaeth Atal Boddi Cymru 2020-2026